

Croeso

Rydym yn falch iawn o'r gwaith anhygoel sydd wedi'i wneud yn Theatr Clwyd yn ei 44 mlynedd o hanes ac rydym wrth ein bodd eich bod yn ystyried ymuno â'n cwmni.

Mae'n gyfnod cyffrous i ymuno â'r tîm wrth i ni ddechrau ar ein gwaith ailddatblygu cyfalaf, gyda'r gwaith i fod i ddechrau yn 2022. Byddwn yn trawsnewid ein cartref i fod yn ganolbwynt i'r gymuned, gyda chanolfan ieuencid bwrpasol, gofod iechyd a lles ac ardaloedd i gefnogi ein timau creu theatr anhygoel gan sicrhau bod Theatr Clwyd yma ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, a'n bod yn ymdrechu tuag at ein cenhadaeth ym mhopeth a wnawn – *Gwneud y byd yn lle hapusach, un ennyd ar y tro.*

Gobeithio eich bod wedi cyffroi am gael gwybod mwy am y swydd wag hon ac rydym yn edrych ymlaen at gwrdd â chi.

Dymuniadau gorau



Tamara Harvey
Cyfarwyddwr Artistig



Liam Evans-Ford
Cyfarwyddwr Gweithredol

Amdanom ni

Mae Theatr Clwyd yn hwb diwylliannol sy'n cynhyrchu theatr o safon byd ym mryniau Gogledd Cymru. Ers 1976 rydym wedi bod yn gwasanaethu ein cymunedau ac yn darparu profiadau theatr a chelfyddydol o'r safon uchaf i bobl Gogledd Cymru a thu hwnt.

Mae ein cenhadaeth yn gynyddol bwysig i ni ym mhopeth a wnawn.

Gwneud y byd yn lle hapusach, un ennyd ar y tro.

Rydym yn ddigon ffodus i fod yn un o'r ychydig iawn o theatrau yn y DU sy'n adeiladu setiau, gwneud gwisgoedd, paentio golygfeydd a chreu props yn fewnol. Mae'r sgiliau creu theatr hanfodol yma'n sicrhau ein bod yn gallu gwthio ffiniau theatrig i greu sioeau trawiadol o hedyn yn nychymyg yr awdur. Ers 2018, mae hyn wedi cael ei gydnabod gan y diwydiant theatr gyda gwobrau UK Theatre, The Stage ac Olivier.

Mae datblygu crëwyr theatr yn ein cymuned yn allweddol i gynnal sector diwylliannol Cymru a'r DU. Mae gennym ofod ar gyfer awduron a chwmnïau sy'n plethu â phrentisiaethau technegol a chyfarwyddwyr dan hyfforddiant i greu adeilad sy'n cefnogi pobl greadigol i ddatblygu rhagoriaeth artistig.

Rydym yn defnyddio ein sgiliau fel sail i drawsnewid cymdeithasol yn ein cymunedau. Rydym yn mynd i'r afael yn greadigol â heriau cymdeithasol ac addysgol fel cyfiawnder ieuencid gan hefyd bontio rhaniadau cymdeithasol ac economaidd. Rydym yn cydnabod yr effaith uniongyrchol a'r manteision hirdymor y gall y celfyddydau eu darparu i gynorthwyo gyda lles seicolegol a chorfforol. Rydym yn cydweithio â bwrdd iechyd mwyaf y GIG yng Nghymru a'r gwasanaethau cymdeithasol lleol i ymateb i'r heriau sy'n wynebu iechyd a gofal cymdeithasol drwy gefnogi ein cymunedau.

Mae gennym drosiant blynyddol diweddar o tua £7m ac rydym yn cael ein cyllido gan gyfuniad o Gyngor Celfyddydau Cymru, Cyngor Sir y Fflint, gwerthiant tocynnau'r swyddfa docynnau, incwm masnachol a chodi arian gan unigolion, ymddiriedolaethau a mudiadau a nawdd corfforaethol.

Disgrifiad Swydd

Math o Gontract:	Parhaol
Oriau:	37 awr yr wythnos
Gradd:	TC02
Cyflog cychwynnol:	£28,298 y flwyddyn
Tîm:	Cynhyrchu
Yn atebol i:	Cyfarwyddwr Gweithredol

Pwrpas y Rôl

Yn gyfrifol am reolaeth dechnegol a chyfleusterau'r lleoliad o ddydd i ddydd a chyflwyno'r holl gynyrchiadau, llogi a digwyddiadau yn ddiogel.

Y nod yw cydlynu rhediad esmwyth y lleoliad o fewn amserlenni a chyllidebau y cytunwyd arnynt, a sicrhau bod gweithdrefnau gweithio diogel yn eu lle bob amser. Byddwch yn cynorthwyo i ddatblygu, cysylltu a chyflwyno'r holl weithgareddau, gan weithio gyda Phrifysgol Glyndŵr a phartneriaid a chwsmeriaid allanol yn ôl yr angen.

Rydym yn chwilio am Reolwr Technegol profiadol, gweithgar a brwdfrydig a all ddarparu arbenigedd technegol a chefnogaeth i'r holl ddefnyddwyr, llogwyr ac artistiaid sy'n perfformio yn Neuadd William Aston ac sy'n gyfrifol am ddefnydd effeithlon, diogel a darbodus o adnoddau a staff, o fewn y ddeddfwriaeth bresennol.

Dyletswyddau a Chyfrifoldebau

- Bod yn gyfrifol am ofynion technegol pob rhan o'r lleoliad, gan sicrhau gweithredu diogel ar gyfer aelodau'r cwmni, cwmnïau sy'n ymweld, artistiaid, technegwyr a phersonél cysylltiedig bob amser.
- Cysylltu â chwmnïau sy'n ymweld, hyrwyddwyr, cynhyrchwyr a llogwyr, gan roi gwybodaeth dechnegol, cefnogaeth ac arweiniad iddynt, a threfnu'r ddarpariaeth ofynnol o offer a staff.
- Rhag-reoli a sicrhau rhediad esmwyth pob digwyddiad yn unol â manyleb cynhyrchu'r digwyddiad.
- Sicrhau cyflwyno llwyddiannus ar yr holl sioeau a digwyddiadau o fewn y lleoliad, gyda'r holl adnoddau yn eu lle a sicrhau bod y llwyfannu a'r offer yn barod ar gyfer pob digwyddiad.
- Gweithio ochr yn ochr â Rheolwr Gweithrediadau / Blaen Tŷ y lleoliad i sicrhau y cynhelir y safonau uchaf posibl ar gyfer cwmnïau sy'n ymweld a'r cwsmer.
- Recriwtio a goruchwylio technegwyr achlysurol a chriw a sicrhau bod digon o staff ar gyfer pob digwyddiad.

- Gweithredu fel Technegydd ar Ddyletswydd ar gyfer digwyddiadau a chynyrchiadau, yn ôl yr angen.
- Gweithredu fel Gweithredydd LX a rhaglennydd a / neu Weithredydd Sain a rhaglennydd ar gyfer digwyddiadau a chynyrchiadau, yn ôl yr angen.
- Defnyddio dull creadigol a blaengar o ddatrys problemau.
- Bod yn llysgennad brand ar gyfer y lleoliad yn ogystal â Theatr Clwyd, a gweithredu fel Rheolwr ar Ddyletswydd y lleoliad yn ôl yr angen.
- Sicrhau dealltwriaeth o'r lleoliad cyfan a'i holl alluoedd – y goleuo, sain, llwyfannu, seddi a chyfleusterau cefn llwyfan / ystafell wisgo.
- Darparu cymorth cynnal a chadw rheng flaen ar gyfer yr holl offer technegol perthnasol, peiriannau, gosodiadau a ffitiadau.
- Gweithio ar gynnal a chadw a rhestr eiddo'r offer technegol, gan gadw cofnodion i sicrhau bod archwiliadau cynnal a chadw yn cael eu cynnal yn rheolaidd yn unol â rheoliadau, gan gynnwys PAT a phroffion eraill.
- Cynhyrchu asesiadau risg a datganiadau dull yn ôl y gofyn.
- Mynychu hyfforddiant yn ôl yr angen a chynnal ymwybyddiaeth o reoliadau iechyd a diogelwch sy'n benodol i'r manau a'r offer a ddefnyddir.
- Sicrhau bod rhwymedigaethau cyfreithiol perthnasol yn cael eu bodloni bob amser gan aelodau'r cwmni a chwmnïau sy'n ymweld yn unol â Pholisi Iechyd a Diogelwch y cwmni.
- Sicrhau y cedwir at yr holl reoliadau ar gyfer symud i mewn, ffitio a gosod, a gadael.
- Sicrhau bod holl aelodau'r cwmni a gwirfoddolwyr perthnasol wedi cael hyfforddiant perthnasol mewn codi a chario a gweithdrefnau tân / gadael y lleoliad.
- Sicrhau bod y lleoliad yn bodloni gofynion Asesiad Risg Tân.
- Gweithio'n agos gyda holl gydweithwyr Theatr Clwyd, gan barhau i greu amgylchedd lle gall aelodau'r cwmni weithio ar draws y ddau leoliad.

Nid yw'r Disgrifiad Swydd hwn yn ddisgrifiad hollgynhwysfawr o'ch dyletswyddau. Bydd gofyn i chi fabwysiadu agwedd hyblyg at eich rôl a'ch cyfrifoldebau. Yn benodol, o bryd i'w gilydd, efallai y bydd gofyn i chi ymgymryd â dyletswyddau eraill neu ychwanegol sy'n cyd-fynd â'ch sgiliau, eich profiad a'ch galluoedd.

Eich Tîm

Pwrpas yr Adran Gynhyrchu yw creu a gweithredu i'r safonau uchaf bob agwedd ar gynyrchiadau Theatr Clwyd a phrosiectau cysylltiedig, mewn partneriaeth â chyfarwyddwyr, cynllunwyr ac arweinwyr prosiectau. Mae'r adran yn gyfrifol am sicrhau bod timau creadigol yn cyflawni eu gweledigaeth artistig o fewn amserlenni a chyllidebau y cytunwyd arnynt.

Ydych chi'n rhywun gyda...?

Manyleb y Person

Hanfodol

- Profiad sylweddol o weithio mewn lleoliad / adran dechnegol theatr / cwmni teithiol neu debyg.
- Profiad cadarn, clir mewn theatr dechnegol a / neu reoli cynrychiadau.
- Profiad o oleuo theatr a systemau sain – rigio a gweithredu.
- Profiad clir o reoli timau
- Profiad clir o reolaeth ariannol.
- Trefnus iawn gyda phrofiad llwyddiannus o gwrdd â therfynau amser a rheoli blaenoriaethau sy'n gwrthdaro.
- Profiad o rigio, addasu a gweithredu systemau rigio a hedfan theatrig.
- Profiad o osod a rigio systemau golygfeydd a systemau decio llwyfannau.
- Sgiliau rhyngpersonol rhagorol, y gallu i gyfathrebu'n glir ac yn gyson â holl ddefnyddwyr y theatr a'r gofod ar gyfer digwyddiadau, yn enwedig defnyddwyr annhechnegol.
- Gwybodaeth ymarferol am reoliadau iechyd a diogelwch perthnasol (gan gynnwys PUWER, COSHH, LOLER), canllawiau diwydiant ac arferion gweithio diogel (ABTT).
- Profiad o ysgrifennu ac adolygu Asesiadau Risg a Datganiadau Dull
- Y gallu i ddefnyddio ystod eang o offer pŵer cludadwy ac offer llaw yn ddiogel ac yn hyderus.
- Yn gorfforol heini ac yn fodlon gweithio ar uchder.
- Hyderus wrth weithio'n annibynnol ond hefyd yn barod i gydweithio ar draws nifer o adrannau.
- Y gallu i weithio oriau hyblyg ac anghymdeithasol gan gynnwys gyda'r nos ac ar rai penwythnosau.
- Trwydded yrru lawn a phrofiad o yrru fan LWB

Dymunol

- Wedi cael hyfforddiant codi a chario, defnyddio ystol a chyfarpar mynediad.
- Yn dangos gallu i greu, darllen a deall cynlluniau technegol, gyda gwybodaeth am CAD a chymwysadau eraill
- Gwybodaeth am drydan – theori ac ymarferol - yn ymwneud â goleuo theatr, systemau sain a chyfathrebu.
- Gwybodaeth gyfredol am systemau goleuo, cyfarpar rheoli, offer a'r dull o'u cynnal a'u cadw.
- Gwybodaeth gyfredol am offer sain a chlyweledol digidol a sut i'w defnyddio mewn perthynas â thechnegau byw, wedi'u recordio a chwarae yn ôl.
- Profiad o reoli digwyddiadau.
- Cymraeg ysgrifenedig a llafar.

Y Broses Recriwtio

Dolen i ymgeisio: [CLICIWCH YMA](#)

Dyddiad cau: **Dydd Mercher 18fed o Fai 2022**

Manteision i Aelodau'r Cwmni

- Tocynnau am ddim ar gyfer sioeau a digwyddiadau Theatr Clwyd, yn amodol ar argaeledd a pholisi
- Gostyngiadau ym mar, caffi a siop anrhegion y theatr
- Cynllun pensiwn gyda NEST
- 32 diwrnod o wyliau blynyddol (gan gynnwys gwyliau banc), pro rata, gan gynyddu gyda hyd gwasanaeth
- Rhaglen Lesiant fewnol
- Mynediad at lechyd Galwedigaethol
- Rydym hefyd yn aelod o'r sefydliad Rhieni a Gofalwyr yn y Celfyddydau Perfformio (PiPA)

Cyfleoedd Cyfartal

Rydym eisiau i'n cwmni fod yn gynrychioliadol o bob rhan o gymdeithas a chroesawu ceisiadau gan bawb.

Credwn fod amrywiaeth yn ymwneud â dathlu a gwerthfawrogi unigolion. Mae gennym ddull cyfle cyfartal o weithredu ac rydym yn anelu at roi cyfle i bawb gyflawni eu potensial.

[Byddem yn ddiolchgar pe gallech gwblhau ein harolwg Cyfleoedd Cyfartal.](#)

Byddem wrth ein bodd yn clywed gennych chi ym mha ffordd bynnag sy'n teimlo fwyaf priodol i chi.

Os hoffech gael mynediad i'r pecyn cais hwn neu gyflwyno'ch cais mewn fformat arall, byddem yn hapus i siarad â chi am eich anghenion.

Cysylltwch â ni ar 01352 344101 neu people@theatrclwyd.com i drafod ymhellach

Mae Theatr Clwyd yn cydnabod bod y gallu i gyfathrebu yn y Gymraeg yn sgil bwysig a gwerthfawr yn y gweithle ac mae wedi ymrwmo i gynyddu nifer ei chyflogeion dwyieithog. Rydym yn croesawu ceisiadau am unrhyw swydd gan ymgeiswyr sy'n gallu gweithio yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Byddwn yn cysylltu â phob ymgeisydd aflwyddiannus i ddweud wrthynt nad ydynt wedi cyrraedd y rhestr fer i'w cyfweled.

Gwneir pob penodiad yn amodol ar eirdaon boddhaol a thystiolaeth o gymhwysedd i weithio yn y DU.

Cysylltu?

I gael rhagor o wybodaeth neu sgwrs anffurfiol am y rôl hon, cysylltwch â

Andrew Roberts

Cyfarwyddwr Cyllid, Gweithrediadau a Phobl

andrew.roberts.theatrclwyd.co



